Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

*Crynodeb o Wybodaeth Ariannol*
*2014/15*
*(Cyfrifon Grŵp)*

**Cyflwyniad**
Ar 15 Tachwedd 2012, etholwyd Mr Christopher Salmon yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys (cyfeirir ato fel 'y Comisiynydd' o hyn ymlaen). Cychwynnodd ar ei swydd ar 22 Tachwedd 2012, a dyna pryd y daeth Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys i ben. Prif gyfrifoldeb y Comisiynydd yw sicrhau y cynhelir gwasanaeth heddlu lleol effeithlon ac effeithiol ledled Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys, a dal Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif am weithredu dyletswyddau heddlu gweithredol o dan Ddeddf Heddlu 1996.
Diben y Crynodeb hwn yw rhoi mewnwelediad i rai o agweddau mwyaf arwyddocaol perfformiad a sefyllfa ariannol y Comisiynydd fel y'u cyflwynir yn fanwl yn y Datganiad o Gyfrifon.

**Datganiad o Gyfrifon**
Cyfrifon 2014/15 yw'r trydydd set o gyfrifon statudol i'w cyhoeddi o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Fel endidau cyfreithiol ar wahân (corfforaeth undyn), mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gynhyrchu eu Datganiadau o Gyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu Cyfrifon Grŵp (cynhwysir cyfrifon y Comisiynydd o fewn y rhain).

Mae'r cyfrifon yn rhoi manylion pellach ynghylch materion ariannol y Comisiynydd/Grŵp ac yn cynnwys:

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol**, mae hyn yn nodi barn yr archwilydd annibynnol, Swyddfa Archwilio Cymru, ynghylch pa un ai a yw'r cyfrifon Grŵp a gyflwynir yn rhoi 'safbwynt gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Comisiynydd ar gyfer 2014/15;
- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon;** mae'r Datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'i Brif Swyddog Ariannol;
- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol;** nid yw'r datganiad hwn yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon, ond mae'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut y mae'r Grŵp yn cynnal busnes yn unol â safonau cywir ac yn cyflwyno canfyddiadau o'r adolygiad blynyddol o effeithlonrwydd y systemau o reoli mewnol;
- **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn;** mae'r Datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Grŵp, wedi'u dadansoddi'n "gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (arian y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy (arian na ellir ei ddefnyddio er mwyn darparu gwasanaethau trwy weithredu safonau cyfrifyddu, er enghraifft, y gronfa bensiwn wrth gefn sy'n cyfateb a'r rhwymedigaeth pensiwn);
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;** mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu a'u defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau trosedd yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys pob cost dydd i ddydd ac incwm perthnasol ar sail croniad, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a gwerth amcanol real buddion ymddeol a enillwyd gan weithwyr yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen** - mae hyn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Grŵp ar ddyddiad y Fantolen. Cydweddir yr asedau net (asedau wedi tynnu rhwymedigaethau) gan y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac annefnyddiadwy;
- **Datganiad Llif Arian** - mae'r datganiad hwn yn crynhoi newidiadau i arian ac arian cyfatebol yn ystod y cyfnod adrodd;
- **Cronfa Bensiwn yr Heddlu –** mae hyn yn crynhoi'r incwm a'r gwariant mewn perthynas â phensiynau'r heddlu yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r cyfrif yn dangos y grant ychwanegol sy'n ddyledus gan y grŵp i'r Cyfrif Cronfa Bensiwn. Mae'r

Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r Grŵp am arian a dalwyd i'r Cyfrif Cronfa Bensiwn, ac i bob pwrpas yn gwarantu'r diffyg ar y Cyfrif Cronfa Bensiwn. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai'r Cyfrif Cronfa Bensiwn yn dangos gwarged ar ddiwedd y flwyddyn;

- **Nodiadau i'r Cyfrifon –** mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n esbonio ymhellach yr eitemau a gynhwysir o fewn y prif ddatganiadau ariannol gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darllenydd o'r prif ddatganiadau ariannol;
  - **Rhestr Termau –** nid yw hyn yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon, ond mae'n cael ei gynnwys er mwyn cynorthwyo â dealltwriaeth y darllenydd o'r Datganiad o Gyfrifon.

**Perfformiad Ariannol y Grŵp**

Ym mis Chwefror 2014, gosododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 o £97.894 miliwn. Ar ôl derbyn Grant o £39.367 miliwn gan y Swyddfa Gartref, Cyfraddau Cenedlaethol Annomestig o £12.390 miliwn a Grant Cymorth Refeniw o £1.251 miliwn, codwyd £44.886 miliwn o'r Dreth Gyngor.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa derfynol o ran alldro ar gyfer 2014/15 o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y Prif Gwnstabl ac ar gyfer y Grŵp yn gyfan gwbl. Drwyddo draw llwyddodd y Grŵp i sicrhau cyllideb gytbwys.

Mae'r adroddiad hwn ar fformat dadansoddiad goddrychol, a ddefnyddir gan reolwyr mewnol ar gyfer dibenion adrodd yn erbyn y gyllideb. Mae'r fformat hwn yn wahanol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a darperir cysoniad rhwng y ddau fformat yn Nodyn 29 i'r Cyfrifon.

Pwyntiau allweddol i'w nodi yn y tabl sy'n dilyn:

<u>Prif Gwnstabl</u>

- Digwyddodd y rhaglen "Y Cyhoedd yn Gyntaf" ar gyfer ailstrwythuro swyddogaethau cymorth yn bennaf yn 2014/15. Roedd y rhaglen yn anelu i gyflwyno arbedion parhaus o oddeutu £3.6 miliwn y flwyddyn ar gostau staff heddlu. Cyflawnodd y rhaglen yn gynt na'r disgwyl a gwariwyd llai na'r disgwyl ar gostau untro megis diswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar gan gyflwyno arbedion ychwanegol o £2.6 miliwn yn 2014/15 o gymharu â'r gyllideb.

- Mae costau swyddogion heddlu yn uwch na'r gyllideb wreiddiol o £2.981 miliwn. Mae'r Heddlu wedi darparu swm o £3.238 miliwn fel amcangyfrif o'r costau sy'n codi o benderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau, yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, i gynnal apêl yn erbyn Adran Actiwarïaid y Llywodraeth a allai gyflwyno goblygiadau o ran ffactorau cymudiad a ddefnyddir ar gyfer ymddeoliadau swyddogion heddlu rhwng 2001 a 2006. Mae'r Heddlu wedi cynnwys asesiad o'r oblygiadau cost cymudiad o'r penderfyniad yn y Cyfrif Refeniw ac ad-daliad a ddisgwylir gan y Llywodraeth i ddarparu ar gyfer y costau llawn yn erbyn y llinell incwm Grant Llywodraeth.

  Heblaw am yr addasiad hwn, roedd gwariant ar swyddogion heddlu fwy neu lai'n cadw at y targed ar gyfer y flwyddyn gyda thanwariant bychan iawn o £300,000 wedi'i wneud yn erbyn cyllideb o ychydig dros £63 miliwn.

  - Mae gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau hefyd i lawr ar y proffil gan adlewyrchu craffu parhaus ac ataliaeth yn cael ei weithredu i bob pennawd gwariant. Yn arbennig, cyflawnodd y prif Gwnstabl arbedion o £513,000 ar danwydd a thrafnidiaeth.

- Derbyniodd yr Heddlu incwm o tua £600,000 nad oedd wedi'i gyllidebu drwy gyd-gymorth a gwasanaethau arbennig a ddarparwyd gan swyddogion a oedd yn arbediad untro pellach yn erbyn y gyllideb.

Darperir manylion pellach mewn perthynas â gweithrediadau'r Prif Gwnstabl yn Natganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl ar gyfer 2014/15.

| | Grŵp | | | Comisiynydd | | | Prif Gwnstabl | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Amrywiad £'000 | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Amrywiad £'000 | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Variance £'000 |
| Costau Gweithwyr | 90,583 | 90,763 | (180) | 726 | 703 | 23 | 89,857 | 90,060 | (203) |
| Costau Adeiladau | 3,660 | 3,533 | 127 | 0 | 0 | 0 | 3,660 | 3,533 | 127 |
| Costau Trafnidiaeth | 2,906 | 2,402 | 504 | 10 | 19 | (9) | 2,896 | 2,383 | 513 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 9,139 | 7,860 | 1,279 | 265 | 157 | 108 | 8,874 | 7,703 | 1,171 |
| Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract | 4,079 | 3,321 | 758 | 1,556 | 1,372 | 184 | 2,523 | 1,949 | 574 |
| **Cyfanswm costau gweithredu** | **110,367** | **107,879** | **2,488** | **2,557** | **2,251** | **306** | **107,810** | **105,628** | **2,182** |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 493 | 1,873 | (1,380) | 0 | 0 | 0 | 493 | 1,873 | (1,380) |
| Amhariadau | 0 | 1 | (1) | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | (1) |
| Elw/Colledion ar waredu ar asedau nad ydynt yn gyfredol | 0 | (31) | 31 | 0 | 0 | 0 | 0 | (31) | 31 |
| Taliadau llog ar fenthyg allanol | 575 | 605 | (30) | 0 | 0 | 0 | 575 | 605 | (30) |
| **Cyllido cyfalaf ac amhariadau** | **1,068** | **2,448** | **(1,380)** | **0** | **0** | **0** | **1,068** | **2,448** | **(1,380)** |
| Neilltuadau: | | | | | | | | | |
| Neilltuadau i/o'r gronfa pensiwn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau i/o'r cronfeydd wrth gefn | (2,182) | 2,821 | (5,003) | 353 | 971 | (618) | (2,535) | 1,850 | (4,385) |
| **Neilltuadau** | **(2,182)** | **2,821** | **(5,003)** | **353** | **971** | **(618)** | **(2,535)** | **1,850** | **(4,385)** |
| Ffioedd, costau ac incwm gwasanaeth arall | (4,630) | (5,462) | 832 | (186) | (636) | 450 | (4,444) | (4,826) | 383 |
| Grantiau'r Llywodraeth (Refeniw a Chyfalaf) | (6,729) | (9,792) | 3,063 | (436) | (298) | (138) | (6,293) | (9,494) | 3,200 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(11,359)** | **(15,254)** | **3,895** | **(622)** | **(934)** | **312** | **(10,737)** | **(14,320)** | **3,583** |
| **Gofyniad Cyllideb** | **97,894** | **97,894** | **0** | **2,288** | **2,288** | **(0)** | **95,606** | **95,606** | **(0)** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | | | | | |
| Grant yr Heddlu | (39,367) | (39,367) | 0 | | | | | | |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | (12,390) | (12,390) | 0 | | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | (1,251) | (1,251) | 0 | | | | | | |
| Y Dreth Gyngor | (44,886) | (44,886) | 0 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **(97,894)** | **(97,894)** | **0** | | | | | | |

Comisiynydd

- Gwariodd Swyddfa'r Comisiynydd oddeutu £100,000 yn llai nag a gyllidwyd ar gyfer ar draws nifer o gategorïau gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys llai na'r disgwyl ar ffioedd archwilio ar ôl derbyn ad-daliad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gwario llai yn 2014/15 ar ddatblygu gwefan newydd y Comisiynydd gan fod peth o'r gwaith wedi'i symud ymlaen i flwyddyn ariannol 2015/16.
- Cychwynnodd y Comisiynydd gomisiynu gwasanaethau newydd yn 2014/15. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn nawr yn cael eu cyflwyno'n wahanol ac mae eraill wedi costio llai na'r disgwyl, er enghraifft, cyflawnwyd arbediad £130,000 ar y Rhaglen Ymyrraeth Gyffuriau trwy'r darparwr gwasanaeth yn gwneud arbedion effeithlonrwydd a thrwy costau gweinyddu llai. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu wedi costio £184,000 yn llai nag a gyllidwyd ar ei gyfer.
- Derbyniodd y Comisiynydd incwm (nas cyllidwyd ar gyfer) trwy'r cyrsiau ailhyfforddi gyrwyr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm yr incwm hwn oedd tua £350,000. Cynhaliodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch sut y dylid gwario'r arian a phleidleisiodd y cyhoedd dros wario'r arian ar gynlluniau diogelwch y ffyrdd. Gan hynny, lansiwyd y Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd yn ddiweddar sy'n ceisio ariannu mentrau ar gyfer helpu i wneud ffyrdd Dyfed-Powys yn fwy diogel.
- O ganlyniad i'r incwm ychwanegol hwn ac arbedion a wnaed gan y Comisiynydd, mae £618,000 ychwanegol wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn.

## Cronfeydd Wrth Gefn

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014/15, roedd y Comisiynydd yn dal cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £45.5 miliwn. Bydd y rhain yn gostwng yn sylweddol dros y pedair blynedd nesaf fel a ganlyn:

- Rhoddwyd £17.7 miliwn naill ochr ar gyfer gwaith ystadau sylweddol. Mae llawer o ystadau'r heddlu wedi dioddef oherwydd diffyg buddsoddi mewn blynyddoedd diweddar ac mae'r rhaglen hon yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau bod yr ystâd yn addas ar gyfer y diben i gynnal gofynion plismona gweithredol yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd cyfleuster dalfa hir ddisgwyliedig newydd yn cael ei adeiladu yn Sir Gaerfyrddin. Pennwyd llawer o'r tanwariant yn 2014/15 i'r gronfa cyfalaf ond mae bwlch ariannu dal yn bodoli ar gyfer y rhaglen waith hon yn 2018/19.
- Roedd y gronfa refeniw a glustnodwyd yn dod i £22.8 miliwn ac mae'n cynnwys £4 miliwn a roddwyd naill ochr ar gyfer crisialiad costau sy'n gysylltiedig â Menter Ariannu Breifat Gorsaf Heddlu Rhydaman. Daeth y Fenter Ariannu Breifat i ben ar 19 Mehefin 2015. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys prosiectau 'buddsoddi er mwyn arbed' gan gynnwys y buddsoddiad gofynnol sydd angen i gymryd rhan mewn cyflwyno Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys yn genedlaethol.
- Ystyriodd y Comisiynydd y lefel cronfeydd wrth gefn gyfredol wrth osod y praesept treth gyngor ar gyfer 2015/16 a arweiniodd at breswylwyr Dyfed-Powys yn derbyn gostyngiad o 5% yn y swm sy'n daladwy o gymharu â 2014/15. Arweiniodd y penderfyniad hwn, ynghyd â thybiaethau o ran y dyfodol yn y lefel praesept, at gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £6.7 miliwn yn cael eu gosod naill ochr i gynnal y gyllideb refeniw dros y cynllun tymor canolig. Ar ôl ystyried y lefel cefnogaeth hwn, mae bwlch arbedion o ychydig dros £7 miliwn yn 2018/19 dal yn bodoli. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn awr yn edrych ar opsiynau a fydd yn cyflwyno'r arbedion gofynnol.

- Ar ddiwedd y flwyddyn, y balans cronfa gyffredinol oedd £4.5 miliwn. Mae'r Comisiynydd wedi trefnu cynnal y lefel cronfa gyffredinol hon yn y tymor canolig.

**Gwariant cyfalaf a chyllido cyfalaf**

Yn ogystal â gwariant refeniw, ceir arian ar asedau megis adeiladau a cherbydau sydd â gwerth tymor hir i'r Comisiynydd.

Pob blwyddyn, mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo rhaglen gyfalaf sy'n manylu ynghylch gwariant. Yn 2014/15, mabwysiadwyd y gyllideb gyfalaf o £13.605 miliwn gan y Comisiynydd.

Ariannwyd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:

- Cyllid Refeniw Uniongyrchol £0.114 miliwn
- Cyfraniadau Grant Cyfalaf £1.357 miliwn
- Cronfeydd Cyfalaf wrth gefn £10.864 miliwn
- Benthyciadau £0.52 miliwn
- Derbyniadau Cyfalaf £0.75 miliwn

Yn ystod 2014/15 y gwariant cyfalaf gwirioneddol oedd £3.021 miliwn. Dangosir y prif amrywiadau o'r gyllideb isod:

| Categori | Rhaglen Gyfalaf | Gwariant | (Dros) / Tan | Rheswm am y gor/tan wariant |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tir ac Adeiladau | 8,771 | 878 | 7,893 | Llithriad yn erbyn y cynlluniau canlynol:<br>£4,500 – Dalfa Llanelli<br>£1,986 – Adnewyddu'r Pencadlys a gorsafoedd heddlu<br>£1,189 – Atgyweiriadau a chynnal a chadw<br>£259 – Adolygiad o ddalfeydd |
| Cerbydau | 1,318 | 1,318 | 0 | |
| Dodrefn ac Offer | 3,516 | 825 | 2,691 | Llithriad yn erbyn y cynlluniau canlynol:<br>£823 – Data Symudol<br>£500 – Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff<br>£360 – Rheoli Mynediad Hunaniaeth<br>£318 – Dyfeisiau Taser/Offer Arall<br>£271 – Cadw Tystiolaeth Digidol<br>£419 – Arall |
| **Cyfanswm** | **13,605** | **3,021** | **10,582** | |

Cyllidwyd y gwariant cyfalaf hwn fel a ganlyn:

| Categori | Rhaglen | Ariannu | (Dros) / Tan | Rheswm am y gor/tan wariant |
|---|---|---|---|---|

| | Gyfalaf | | | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 750 | 168 | 582 | Derbyniadau cyfalaf yn is na chyllidwyd ar gyfer |
| Cyllido Refeniw Uniongyrchol | 114 | 0 | 114 | Oedi o ran ymuno â'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol |
| Benthyca | 520 | 0 | 520 | Dim angen |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth gefn | 10,864 | 1,504 | 9,360 | Gwariant is na ddisgwyliwyd ar y rhaglen gyfalaf |
| Grant a Chyfraniadau Cyfalaf | 1,357 | 1,349 | 8 | Gwariant ar ddata symudol a ariannwyd gan grant yn is na chyllidwyd ar gyfer |
| **Cyfanswm** | **13,605** | **3,021** | **10,584** | |

## Taliadau Dewisol

Yn genedlaethol, codwyd pryderon yn ystod 2013/14 ynghylch cyfreithlondeb rhai lwfansau dewisol a dalwyd i nifer bychan o uwch swyddogion mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys Heddlu Dyfed Powys. Gweithredwyd yn gyflym i atal talu taliadau dewisol hyd nes y bydd y sefyllfa gyfreithiol wedi'i hegluro'n llawn. Roedd rhai o'r taliadau hyn yn ymwneud â symiau a dalwyd yn 2013/14 a thynnwyd sylw at rain yn Nodyn 32 i'r cyfrifon, Tâl Swyddogion.

Yn ystod 2014/15, cynhaliwyd gwaith pellach i bennu sefyllfa gyfreithiol y taliadau hyn ac roedd heddlu yn Lloegr i fod i ddwyn y mater hwn i'r llys ym mis Mawrth 2015. Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n ddoeth ac yn gost effeithiol aros hyd nes y bydd canlyniad yr achos llys yn hysbys cyn symud ymlaen â'r mater yn Nyfed-Powys. Fodd bynnag, ni chyrhaeddodd y mater y llys ac ni ddaethpwyd i benderfyniad. Gan hynny, bwriad y Comisiynydd yw adolygu'r wybodaeth sydd ar gael iddo a gwneud penderfyniad ar y mater er mwyn dwyn y mater i ben yn 2015/16 os yn bosibl.

## Edrych i'r Dyfodol

Roedd y setliad grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 yn arbennig o heriol, gyda gostyngiad mewn cyllid o 5.1% yn cael ei weithredu i grantiau canolog. Wrth osod elfen blismona'r dreth gyngor (a elwir yn 'praesept') roedd y Comisiynydd yn ymwybodol o'r angen ar gyfer cydbwyso'r pwysau ar gyllidebau cartrefi a'r angen i ddarparu gwasanaeth plismona cyhoeddus effeithiol. Hefyd, ystyriodd lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 5% yn y praesept treth gyngor sy'n daladwy gan breswylwyr Dyfed-Powys o gymharu â 2014/15.

Mae'r gyllideb amlinellol a bennwyd ar gyfer 2015/16 wedi cynnwys gostyngiadau cost cylchol o £3.607 miliwn, sef y targed a osodwyd gan y Comisiynydd ar gyfer y Prif Gwnstabl yn 2015/16. Cyhoeddwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cynnwys y cyfnod o 2015/16 i 2018/19 ochr yn ochr â'r gyllideb ar gyfer 2015/16 ac mae hyn yn dangos ansicrwydd sylweddol mewn perthynas â'r cyllid fydd ar gael i'r Comisiynydd yn ystod y cyfnod hwn.

Disgwylir y bydd y Swyddfa Gartref yn gweithredu gostyngiad tebyg mewn grant o oddeutu -5% yn 2016/17. Fodd bynnag, mae arwyddion y gall y gostyngiad fod yn fwy o lawer. Gall y sefyllfa ariannol gael ei heffeithio hefyd gan benderfyniadau Gweinidogion y Swyddfa Gartref o gwmpas methodoleg fformiwla ariannu. Yn ogystal, gallai rhai cynyddiadau cost sylweddol godi o Ebrill 2016 o ganlyniad i newidiadau i Yswiriant Gwladol sydd wedi'u trefnu fel rhan o Ddiwygiadau Pensiynau Llywodraeth ehangach. Gallai hyn ychwanegu tua £1.3 miliwn i ofyniad cyllideb y Grŵp yn 2016/17.